CYNGOR TREF LLANBEDR P.S.
COFNODION
CYFARFOD MISOL 24ain O EBRILL 2008 AM 7.30PM
NEUADD Y DREF LLANBEDR P.S.

1. **Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Maer C.Thomas**
Presennol: Y Maer C.Thomas (Cadeirydd); Elsie Dafis; Hazel Davies; John Davies; Margaret Davies-Evans; Robert Harris; Lynda Mason-George; Robert Phillips; Kistiah Ramaya; Selwyn Walters and Derek Wilson.
Mr Geoff Carter; Mrs Trish Carter.

YMDDIHEURIADAU
Y Cyng. A Carter; Mr Carl Stringer a'r Heddlu.

2. **DATGELU BUDDIANNAU PERSONOL**
Dim

3. **CADARNHAU COFNODION Y CYFARFODYDD - 27/03/2008 a'r 9/04/2008 (Cittaslow)**
Cytunwyd eu bod yn gywir.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
Amherthnasol.

5. **MATERION SY'N CODI O'R COFNODION BLAENOROL**

5.1 **Cittaslow** datblygiadau pellach: cynhelir y Cyfarfod Agored, a drefnwyd gan y Cyngor Tref ar Nos Fawrth 13eg o Fai am 7:00pm yn Theatr Cliff Tucker Prifysgol Llanbedr PS. Y Gŵr Gwadd fydd Mr Graeme Kidd Cyd-lynydd Cittaslow Prydain. Pwrpas y cyfarfod fydd sefydlu Gweithgor *Cittaslow*.

5.2 **Ganolfan leuenctid Llambed:** bydd y clwb yn agor ei ddrysau ar Nos Fawrth 7fed o Fai. Disgwylir y bydd yr Agoriad Swyddogol yn y dyfodol agos.

5.3 **Y Darpariaeth o Arwyddion Newydd ar gyfer y dref** –Cyflwynwyd cais gan Gymdeithas Efeillio Llambed i'r Cyngor Sir am arwyddion ar y mynedfeydd I'r dref i ddatgan efeillio â St Germain sur Moine. Nid oedd aelodau o blaid ychwanegu darnau o fetel i'r arwyddion presennol. Penderfynwyd i sefydlu gweithgor gyda'r bwriad o ddylunio arwyddion (drafft), i'w hystyried yn ystod y cyfarfod nesaf. Penderfynwyd i ofyn tybed a fyddai'r CSC yn parod i ariannu ychydig o'r gost a hefyd i gysylltu â'r Prifathro, Coleg Llambed i ofyn os oes diddordeb ganddo mewn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â'r Coleg.

5.4 **Biniau ar gyfer casglu gwastraff ailgylchadwy:** Cytunodd y Cyng. R.Phillips i wneud ymholiadau pellach ee sawl bin fydd angen a pa mor aml y gwaceir hwynt.

5.5 **Darpariaeth o seddau ar gyfer y Swyddfa Post, Llanbedr PS**: Adroddwyd fod 2 sedd, sy'n cwrdd â gofynion Iechyd a Diogelwch, wedi eu harchebu gan y Swyddfa Post Cyf. Dylent fod mewn lle yn ystod yr wythnosau nesaf.

5.6 **Disgwylir ateb oddi wrth y CSC parthed y materion trafnidiaeth canlynol:**
- **5.6.1** **Yr arwydd "Rhoi Cyfle i Draffig o Gyfeiriad Arall**" Heol y Porthmyn;
- **5.6.2** **Diddymu'r Llinellau Melyn** o Flaen yr Hen Ysgol Gynradd; a
- **5.6.3** **Gwahardd Loriau trwm,** hir a llwythog sy'n teithio ar Stryd yr Eglwys a Bryn-yr-Eglwys.

6. GOHEBIAETH

6.1 **Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru** 2009/10**:** er gwybodaeth.

6.2 **Cod Ymddygiad CSC**: **Cod Ymddygiad Newydd:** yn dilyn adolygiad o weithredu'r Cod Ymddygiad presennol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi cyhoeddi enghraifft newydd o'r Cod Ymddygiad a gynhwysir yng Nghorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008 a luniwyd ar 20 Mawrth 2008. Dosbarthwyd gopi o'r Gorchymyn a oedd yn cynnwys y Cod Ymddygiad enghreifftiol newydd i aelodau'r Cyngor Tref. Mae'r gyfraith yn gofyn i Gynghorau Cymunedau a Thref fabwysiadu'r Cod Ymddygiad newydd, sydd yn gorfod cynnwys pob un o'r darpariaethau yng nghod enghreifftiol y Cynulliad, o fewn 6 mis o'r dyddiad y gwnaethpwyd y Gorchymyn. Penderfynwyd i fabwysiadu'r Cod enghreifftiol newydd fel Cod Ymddygiad Cyngor Tref Llanbedr Pont Steffan a fydd yn dod i rym ar y 5ed o Fai 2008 (sef yr un dyddiad yr ystyrir fod Cynghorwyr yn ymgymryd â'u swydd yn ffufriol yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ar y 1af o Fai). Bydd hyn yn golygu y bydd y Cod Ymddygiad eisoes yn ei le yng nghyfarfod cyntaf y Cyngor sydd newydd ei ffurfio, a gynhelir ar ôl yr etholiad. Yn y cyfarfod cyntaf hwn, bydd yn rhaid i Gynghorwyr arwyddo Datganiad Derbyn Swydd ar y ffurflen ddynodedig, sydd yn cynnwys ymrwymiad i gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad.

6.3 **Datblygu Siop y Bentref:** Pafiliwn Pontrhyfendigiad: er gwybodaeth.

6.4 **Cau Ffordd Dros-Dro: Heol y Porthmyn** o 8:00 6/08/2008 i 17:00 10/05/2008 mae'r cau yn angenrheidiol er mwyn gwarantu diogelwch y cyhoedd am y cyfnod hwn.

6.5 **Ymchwil draws-barti- Leukaemia Plentyndod a'r cysylltiad â Llinellau Pwer Uwchben:** dosbarthwyd yr adroddiad i 'r aeloadau.

6.6 **Copi o'r llythyr Kate Butler** at sylw Prifathro Ysgol Uwchradd Llanbedr PS yn cyfeirio at ymddygiad gwrth-gymdeithasol disgyblion yr Ysgol Uwchradd o dan yr arch ger Neuadd y Dref. Cytunodd y Cyng Harris i ddwyn y mater o flaen Corff y Llywodraethwyr yr Ysgol Uwchradd.

6.7 **Cyfarfod 25/04/2008** Neuadd Fictoria Llambed15:00-17:00 – mae CSC wedi penodi ymgynhorwyr DTZ, yn gymorth i ddeall yr anghenion tir at y dyfodol o ran yr economi a chyflogaeth ar draws y Sir. Mae'r ymgynghorwyr yn trefnu dau grŵp trafod i drafod y farchnad leol a fydd yn archwilio'r gwahanol faterion sy'n effeithio ar ardaloedd yr Arfordir ac Ardaloedd Cefn Gwlad y Sir. Byddant yn falch o gael barn y Cyngor Tref am weithgareddau'r economi lleol a'r farchnad leol ac felly gwahoddir y Cyngor Tref i gymryd rhan yng Ngrŵp Trafod y Farchnad Leol i archwilio'r materion a'r cyfleoedd sy'n berthnasol i'r ardal. Datganodd y Cyng. Barton ddiddordeb i fynychu'r cyfarfod hwn.

6.8 Gohebiaeth Eraill: er gwybodaeth yn unig.

7. MENTER LLAMBED

Adroddodd y Cyng G.Evans fod

7.1 **Y Cynllun y Dref Drawsnewidiol** yn dod yn ei flaen; mae nifer o is-bwyllgorau'n cyfarfod yn rheolaidd;

7.2 **Dalier i ddisgwyl cymhorthdal o'r Cynulliad Cenedlaethol** yn ymwneud â'r Dref Drawsnewidiol;

7.3 **Mae safle ar y we newydd** wedi ei lunio; bydd ar gael ar y we yn fuan;

7.4 Gweithgareddau Chwaraeon: mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen.

8. CYNLLUNIO

8.1 Ceisiadau

8.1.1 Rhif y Cais: **A080323LB:** Newidiadau oddi fewn: Neuadd yr Eglwys, Heol yr Eglwys, Llanbedr PS - dim gwrthwynebiad.

8.1.2 Rhif y Cais: A080295: Codi byngalo: tir gerllaw Cod y Glyn; Lôn Glynhebog, Llambed; dim gwrthwynebiad.

8.1.3 Rhif y Cais A080303: Diddymu y garej presennol, Mountwalk, Llambed: dim gwrthwynebiad ond nid yw'r mynediad wedi ei arddangos yn glir ar y map.

8.2 Mae'r cais i godi estyniad i'r gegin gyfredol, Goedwig, Heol Llanwnnen, Llambed wedi cael ei DYNNU'N ÔL. Ymgeisydd Mr E Richards.

9. CYLLID

9.1 Apêl Llanbedr Pont Steffan a'r Cylch ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010: cytunwyd y byddai'r Darpar-Faer yn trefnu gweithgaredd codi-arian yn ystod ei amser fel Maer y flwyddyn nesaf, ar gyfer yr apêl yma.

9.2 Yswiriant Zurich: Mwy o ddarpariaeth ar gyfer y Ddeddf Corfforaethol Dyn-laddiad 2007: er gwybodaeth.

9.3 Archwiliwr Mewnol: heb ddod o hyd i berson cymwys;

9.4 Penderfynwyd i gyfrannu £1,000 ar gyfer Eisteddfod Gŵyl y Banc, Llanbedr Pont Steffan.

9.5 Cyflog y Clerc Mawrth 2008 £429.94; Treth £111.72; Golau a Gwres £20;

9.6 Cascade, Llambed; Tusw o Flodau £35.00

9.7 CTCC Llog 1 Ebrill 2008 – 31 o Fawrth 2009 £12,000 + £2,100 TAW.

10. IS-BWYLLGORAU

10.1 LLWYBRAU CERDDED gan gynnwys Parc-yr-Orsedd

10.1.1 Adleoli'r Bloc o graig ym Mharc-yr-Orsedd: codir tâl o £900 ar gyfer adleoli'r bloc o graig. Cytunood y Maer i gysylltu â'r Cwmni *Playworld Systems* i geisio cytuno ar gostyngiad yn y pris.

10.1.2 Trwsio'r ffens/mynedfa newydd ar gyfer Parc-yr-Orsedd- datblygiadau pellach- penderfynwyd i ofyn am 3 amcan-bris. Byddai un ohonynt yn cynnwys amcanbris o GSC, sydd wedi rhoi caniatâd ar gyfer y gwiath i fynd yn ei flaen. Penderfynwyd i drefnu cyfarfod safle gan aelodau'r Cyngor Sir.

10.1.3 Byddai tocio coed yn yr ardal yma yn teilyngu pris o oddeutu £360.

10.2 PALMANTAU

10.2.1 Lleoli biniau ar gyfer gwaredu dom cŵn: gwaith ymchwil yn mynd yn ei flaen.

10.2.2 Mae trigolion Llys Pedr wedi gofyn am 2 fainc newydd gan fod y meinciau presennol yn hen ac yn rhy isel. Mae angen meinciau sy'n uwch na'r arferol - i adrodd y mater at sylw'r Cyngor Sir.

10.3 GOLEUADAU STRYD

10.3.1 Y sefyllfa parthed gwelliannau i'r goleuadau ar Heol y Bryn gan ddefnyddio deunyddiau arbed ynni na sydd yn gwneud drwg â'r amgylchfyd. Derbyniwyd ateb oddi wrth Mr N.Garrod, CSC yn cytuno y byddai Heol y Bryn yn elwa'n fawr ar well goleuadau a byddai'n hapus i'w ystyried petai arian yn dod ar gael. Ar hyn o bryd, gwarir dyraniad y gyllideb gyfalaf ar gyfer goleuadau strydoedd ar sicrhau bod y cyflenwad presennol o oleuadau, colofnau lampiau, arwyddion, goleuadau arwyddion, croesfannau pelican ayyb yn cael eu cadw mewn cyflwr diogel. Ni osodir goleuadau newydd onibai na ellir trwsio cynllun sydd eisioes mewn bodolaeth, neu fel rhan o gynllun gwelliannau cyffredinol, pan ddaw arian ar gael o gyllideb arall.

10.4 CTCC

10.4.1 Yr Adroddiad Misol – Mawrth – CSC: Mae 3 cais wedi eu cyflwyno gan yr heddlu ar gyfer arsylwi deunydd digidol – 2 ymosodiad ac un difrod troseddol. Archebwyd offer ar gyfer Sysem CTCC Llambed a dylai'r contractwr fod ar y safle yn fuan i ymgymryd â'r gwelliannau.

10.4.2 Ymweliad â'r Ystafell Reoli, Aberystwyth: yn dal i ddisgwyl dyddiad cyfleus, gan CS car gyfer ymweld â'r Ystafell Reoli.

11. UFA

11.1 Penderfynwyd i ddiolch i'r Adran Parciau a Gerddi CSC am y gwaith sydd wedi ei gyflawni ger y Gofgolofn . Mae'r darn o dir yn edrych yn weddus iawn.

11.2 Cytunwyd i ofyn i GSG petaent yn barod i gyfrannu'r bwlbiau Cennin Pedr sydd heb eu hangen fel rhodd i'r Cyngor Tref.

11.3 Bydd y gystadleuaeth *Llambed mewn Blodau'n* cymryd lle eleni (tu flaen yn unig)

11.4 Parc Longwood: agoriad swyddogol - 4ydd o Fai

11.5 Mae'r Ganolfan Deulu'n dal i chwilio am gartref newydd;

11.6 Bydd y Cyng. Hazel Davies yn ymddeol yn ei swydd o gynghorydd ar y 30ain o Ebrill 2008. Diolchwyd iddi am ei chyfraniad gwerthfawr a chyfoethog yn ystod y degawdau pan y bu'n Gynghorydd. Yn sicr bydd bwlch ar ei hôl. Penderfynwyd i dalu teyrnged iddi'n ystod y Seremoni Urddo'r Maer 2008.

11.7 Cytunwyd i anfon tusw o flodau at Cyng Mrs Jan Harris sydd wedi bod yn teimlo'n anhwylus yn ddiweddar.

11.8 Gofynnir i'r CSC tybed a fyddai'n bosibl i lwyfannu Seremoni Urddo'r Maer yn Neuadd y Dref eleni.

11.9 Mae dŵr yn dal i grynhoi ar fynedfa yr Orsaf Ambiwlans - i ddwyn y mater at sylw'r CSC, unwaith yn rhagor.

12. Dyddiad y cyfarfodydd nesaf:

Nos Iau 8fed o Fai am 7:00pm – Arwyddo'r Datganiad Derbyn Swydd;
Nos Iau 29ain o Fai am 7:30pm – Cyfarfod Misol.